# Cynhyrchydd Cymunedol *Another Queer Christmas*

Swydd-ddisgrifiad a Manyleb Person
Mehefin 2023

mess up the mess

Dyddiad y daw i rym: Mehefin 2023
Teitl y Swydd: Cynhyrchydd Cymunedol
Cyflogwr: Mess Up The Mess Theatre Company LTD
Lleoliad: Lleolir yn Abertawe - gweithio o swyddfa (i'w gadarnhau) a gweithio gartref

**Prif Ddiben y Swydd**

Cyfrannu at gyflawni *Another Queer Christmas* yn llwyddiannus, gan gynnwys cymryd cyfrifoldeb dros agweddau ar y prosiect a ddirprwyir. Y Cynhyrchydd Cymunedol fydd y cyswllt hanfodol rhwng cyfranogwyr y prosiect, y gymuned a'r artistiaid.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r rhaglen o weithdai, eu trefnu a recriwtio iddynt, gan gynnwys gweithio ochr yn ochr â'r artistiaid arweiniol. Byddant yn sicrhau bod gwreiddiau'r prosiect yn parhau i fod yn gadarn yng nghymunedau LGBTQIA+ Abertawe ac yn arwain wrth gefnogi twf ecosystem o grwpiau a gweithgareddau creadigol LGBTQIA+ fel gwaddol y prosiect.

Deiliad y swydd fydd yr aelod allweddol o staff Mess Up The Mess 'ar y tir' hefyd, a bydd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at bolisïau a gweithdrefnau Mess Up The Mess a bod cyfathrebu llyfn rhwng y prosiect a thîm staff Mess Up The Mess.

**Safle o fewn y Mudiad**

Enw a safle goruchwylydd nesaf:
Sarah Jones, Cyfarwyddwr Artistig

**Cysylltiadau Allweddol Eraill**

- Artistiaid Arweiniol: Bethan Marlow a Cerian Wilshere-Davies
- Cynhyrchydd Mess Up The Mess
- Swyddog Gweinyddol Mess Up The Mess
- Grŵp Partneriaeth *Another Queer Christmas*

# Swydd-ddisgrifiad

- Gweithio gyda Mess Up The Mess, partneriaid y prosiect a'r Artistiaid Arweiniol er mwyn cyflawni prosiect *Another Queer Christmas*.
- Cefnogi'r Artistiaid Arweiniol i drefnu'r rhaglen o weithdai a gweithgareddau, ei hyrwyddo a'i chyflawni.
- Sefydlu ei hun yng nghymunedau LGBTQIA+ Abertawe, a meithrin ymgysylltiad rhwng cymunedau, mudiadau llawr gwlad ac unigolion a'r prosiect.
- Recriwtio cyfranogwyr i gymryd rhan yn y prosiect, gan roi sylw penodol i sicrhau bod amrywiaeth poblogaeth LGBTQIA+ Abertawe wedi ei chynnwys.
- Cefnogi'r broses o ymgysylltu â chyfranogwyr a'u cadw.
- Mynd i gyfarfodydd y bartneriaeth, cyfarfodydd creadigol a chyfarfodydd rheoli'r cynhyrchiad, a chyfrannu atynt.
- Gweithio gyda Mess Up The Mess a'r Artistiaid Arweiniol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli yn unol â gofynion y corff cyllido a pholisïau a gweithdrefnau Mess Up The Mess.
- Cyfrannu at fonitro a gwerthuso.
- Gweithio gyda phartneriaid y prosiect er mwyn sicrhau y cyflawnir gwaddol y prosiect.
- Cefnogi'r gwaith o greu grwpiau, a'u trefnu, er mwyn parhau â gweithgareddau'r prosiect y tu hwnt i oes y prosiect.
- Cefnogi'r broses o gynnal rhwydweithiau o fudiadau ac unigolion LGBTQIA+ sy'n bodoli yn barod a chreu rhai newydd
- Gweinyddu dogfennaeth prosiect *Another Queer Christmas* gan gynnwys cynnal cofnod o'r cyfranogwyr a'r sesiynau a diweddaru'r gronfa ddata.
- Rheoli cyllidebau a ddirprwyir
- Bod yn fodel rôl cadarnhaol ar gyfer holl gyfranogwyr gweithgareddau MUTM.
- Lledaenu gwybodaeth i'r rheolwr llinell, cydweithwyr ac eraill fel sy'n briodol
- Cynllunio eich gwaith eich hun, ei drefnu a'i flaenoriaethu yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n

fisol.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod *Another Queer Chrismas* yn rhedeg yn llyfn

# Manyleb Person

## Profiad

### Hanfodol

- Llythrennedd cyfrifiadurol, gyda phrofiad o raglenni Office, defnyddio'r rhyngrwyd ac e-bost a chyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o weithio mewn ffordd gefnogol a sensitif gyda chyfranogwyr LGBTQIA+ o gefndiroedd amrywiol sydd wedi cael profiadau amrywiol.
- Trefnu prosiectau yn y gymuned, eu rheoli a'u gwerthuso
- Profiad o gynllunio prosiect a rheoli cyllideb.
- Hyrwyddo gweithgareddau, gwasanaethau a digwyddiadau ar gyfer cymunedau amrywiol, gan gynnwys y rheiny a allai fod yn anoddach eu cyrraedd neu efallai nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau prif ffrwd.
- Profiad o weithio'n effeithiol gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, y trydydd sector, mudiadau ieuenctid a'r celfyddydau.

### Dymunol

- Profiad o weithio neu wirfoddoli mewn amgylchedd celfyddydau cyfranogol.
- Profiad o gefnogi unigolion a / neu gymunedau i drefnu.

## Gwybodaeth

### Hanfodol

- Gwybodaeth a diddordeb mewn o leiaf un maes celfyddydau a diwylliant.
- Gwybodaeth am gymunedau LGBTQIA+ a'u diwylliant.

### Dymunol

- Gwybodaeth sylweddol am gymuned LGBTQIA+ Abertawe a'i mudiadau.
- Gwybodaeth am fodelau llywodraethu'r trydydd sector.
- Gwybodaeth am godi arian yn y trydydd sector.

## Sgiliau / Gallu

### Hanfodol

- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth a chynhwysiant LGBTQIA+.
- Cyfathrebu'n ysgrifenedig ac ar lafar i safon dda.
- Sgiliau gwrando a chyfathrebu da.
- Y gallu i weithio gyda chyfranogwyr y prosiect, waeth beth fo'u hethnigrwydd, eu rhywedd, eu rhywioldeb neu eu cefndir cymdeithasol ac economaidd.
- Lefel uchel o hunanysgogiad, menter, brwdfrydedd ac ymrwymiad.
- Dibynadwy, yn gallu cadw amser yn dda a gweithio'n gywrain mewn ffordd strwythuredig a threfnus.
- Gallu gweithio oriau hyblyg, gan gynnwys penwythnosau a gyda'r hwyr.
- Arddangos y gallu i weithio ar eich menter eich hun ac yn rhan o dîm.

- Y gallu i ddatrys problemau.
- Sgiliau cydweithio cryf.

### Dymunol

- Y gallu i siarad Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu Cymraeg.

## Cymwysterau

### Hanfodol

- Gradd neu brofiad cywerth.
- Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus a pharodrwydd i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol.

### Dymunol

- Trwydded yrru lawn a'r defnydd o'ch cerbyd eich hun at ddibenion gwaith.